



22 Mehefin 2005

Prif Weithredwyr
Awdurdodau Lleol Cymru

Annwyl Syr / Madam

DEDDF TRWYDDEDU 2003 A'R GYMRAEG

Fel y gwyddoch, o bosib, bu cryn bryder yng Nghymru wedi i'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) gyflwyno ffurflenni Ddeddf Trwyddedu 2003 yn Saesneg yn unig.

Byddai'n well gan nifer o'r rheiny sy'n cael eu heffeithio gan y drefn trwyddedu newydd dderbyn a chwblhau fersiynau Cymraeg o'r ffurflenni.

Er mwyn ymateb i anghenion lleol, fe gyfieithodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy nifer o'r ffurflenni allweddol – ac mae'r Cyngor hwnnw bellach yn prosesu ceisiadau am drwydded a gyflwynwyd yn y Gymraeg.

Pwrpas y llythyr yma yw gofyn i chi ddilyn esiampl Conwy. Mi fydd hyn yn eich galluogi i gwrdd ag anghenion dalwyr trwydded Cymraeg eu hiaith, tra'n sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'ch Cynllun Iaith Gymraeg statudol wrth weinyddu'r Ddeddf Trwyddedu.

Gan mai 6 Awst yw'r dyddiad cau o dan y Ddeddf, bydd angen paratoi a darparu'r ffurflenni yma cyn gynted â phosib. Yn unol â hynny, mae'n bleser gennyf amgáu copi electronig o ffurflenni Conwy, ar ddisg, fel y gallwch eu haddasu i gynnwys manylion eich awdurdod.

Mae'r llythyr yma wedi ei gytuno gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r DCMS. Er gwybodaeth mae Gweinidog yr Adran wedi cadarnhau nad oes ganddo wrthwynebiad polisi i chi ddarparu ffurflenni Cymraeg.

Mae Phil Rafferty, Pennaeth Gwasanaethau Cofrestru a Thrwyddedu Conwy (01492 574038) wedi dweud wrthyf y byddai'n hapus i ddelio ag unrhyw ymholiadau sydd gennych am ddefnyddio'r ffurflenni. Esboniodd hefyd bod Conwy wrthi'n cyfieithu gweddill ffurflenni'r Ddeddf Trwyddedu – ac y dylent fod yn barod o fewn tua pythefnos.

Diolch i chi am eich cydweithrediad. Yn y cyfamser gadewch i mi wybod cyn gynted â phosib os byddwch angen unrhyw gyngor neu gymorth pellach.

Yn gywir,

Meirion Prys Jones

Meirion Prys Jones
Prif Weithredwr